


# Awgrymiadau Sylfaenol Sgrifennu Dramâu

**Cychwyn â syniad** – Caiff eich drama fod am be fynnwch chi. Gallai fod am rywbeth ddigwyddodd go iawn i chi neu i rywun rydych chi'n ei nabod neu gallai fod am rywbeth o'ch pen a'ch pastwn.

**Meddyliwch am broblem** – Gallai eich cymeriadau fod yn wynebu problem fydd wrth graidd y plot, i'w wneud yn fwy dramatig. Fel arfer mae plot drama yn dilyn y llinell amser yma:

(1) mae'r dechrau'n disgrifio'r cymeriadau a'r gwrthdaro/y broblem,
(2) mae'r cymeriadau'n ceisio datrys y broblem,
(3) mae eu gweithredoedd yn arwain at y funud orau yn y ddrama, neu'r trobwynt,
(4) mae hyn wedyn yn arwain at ddatrys, sy'n crynhoi sut mae pethau'n dod i ben.

**Lleoliad**. Lleoliad drama ydi lle mae'n digwydd. Gallai hyn fod yn gyfnod mewn hanes, yn wlad dramor, yn adeilad neilltuol neu'n unrhyw fan fynnwch chi. Mae newidiadau golygfeydd yn adeg dda i gymeriadau newid lleoliad.

**Cymeriadau**. Dylai fod gan eich drama dri pherson ynddi. Mae gofyn i bob un o'r cymeriadau yma fod ac arno eisiau rhywbeth, a chanddo nod neu amcan. (Gallech restru pob cymeriad a rhoi disgrifiad manwl i bob un, yn cynnwys ei enw, ei oed, ei bryd a'i wedd, ei bersonoliaeth, ei hobïau a'i ddiddordebau.

**Dialog**. Dyma'r sgyrsiau rhwng y cymeriadau, sy'n adrodd eich stori. Mae be mae pob un yn ei ddweud yn dangos hwyliau a phersonoliaeth y cymeriad. Mae'n syniad da ymarfer sut mae'r ddialog yn swnio drwy ei darllen yn uchel.

**Fformat**. Mae defnyddio'r fformat iawn i sgrifennu dramâu yn help i bobl ddarllen eich drama. Isod fe gewch chi enghraifft o'r fformat cywir:

**Y DIWRNOD HEULOG**
**Gan JONI JÔS**

**Cast y Cymeriadau:**
MICHELLE, mam gyfeillgar, tua'i deg ar hugain
IOLO, ei mab 14 oed
DEWI, ffrind gorau Iolo, hefyd yn 14 oed
NICK, gŵr Michelle a thad Iolo, yn poeni am ei waith
MENNA, chwaer 12 oed Iolo, sydd weithiau'n tynnu ei goes

**Lleoliad:**
Mae'r ddrama'n digwydd mewn gardd yng Nghaerdydd yn 2020, ar ddiwrnod heulog iawn yn ystod y cyfnod clo.

**YR ACT GYNTAF**
**YR OLYGFA GYNTAF**

*Negeseuon ydi'r Cyfarwyddiadau Llwyfan at yr actorion a'r criw i ddweud wrthyn nhw beth i'w wneud a sut i symud o gwmpas y llwyfan. Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yma'n gyflin i'r ymyl dde. Dylen nhw fod yn fyr ac yn yr amser presennol. Maen nhw'n disgrifio gweithredoedd a phethau gweledol, nid meddyliau mewnol.*

(Bore cynnar, mae'r haul yn tywynnu, yr adar yn trydar yn swnllyd. Daw IOLO i'r golwg yn yr ardd, wedi'i wisgo at dywydd y gaeaf a gwarbac ar ei gefn. Daw MICHELLE allan o'r tŷ a rhedeg i ddal IOLO.)

**MCHELLE**
Iolo, aros! Wyt ti'n gwisgo hwnna go iawn? Fyddi di mor dwym! Hufen lliw haul a het haul sy ishe arot ti a dylet ti dynnu dy gôt.

**IOLO**
Fi'n iawn, paid â becso. Os cadwa i nghôt amdana fydd dim ishe hufen lliw haul arna i.

(Daw DEWI i mewn, hefyd yn gwisgo côt, a cherdded tuag at IOLO.)

**DEWI**
S'mai Iolo, barod i fynd? Fyddwn ni'n hwyr a gollwn ni'n bws.

***Pethau i'w nodi:*** *Mae enwau'r cymeriadau i gyd mewn PRIFLYTHRENNAU, yn ddu, ac yn y canol yn union cyn llinell ddialog pob cymeriad. Mae cyfarwyddiadau llwyfan ar ddechrau golygfa ac unrhyw fan arall lle bo angen egluro digwyddiadau, celfi, neu ddisgrifiadau i'r cast a'r criw.*